Bwletin Rhifyn 1 Gorffennaf 2017
*Bulletin Number 1 July 2017*

# Bwletin Rhifedd

# *Numeracy Bulletin*

Annwyl riant/warchodwr,

Penderfynwyd eleni cyhoeddi Bwletin Rhifedd bob blwyddyn o hyn ymlaen. Pwrpas y Bwletin ydy cyflwyno gwybodaeth am yr hyn sydd wedi cael ei weithredu yn Ysgol Dyffryn Conwy o ran rhaglenni ymyrraeth ac o ran hyrwyddo a datblygu Rhifedd ar draws y Cwricwlwm yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

*Dear parent/guardian,*

*It was decided this year to publish a Numeracy Bulletin every year from now on. The purpose of this Bulletin is to present information about intervention schemes and what has been implemented in Ysgol Dyffryn Conwy to promote and develop Numeracy across the Curriculum during this last school year.*

## Cyfnodau Cofrestru Blwyddyn 7 *Registration Time for Year 7*



Mae pob disgybl ym mlwyddyn 7 wedi bod yn cymryd rhan mewn sesiynau Rhifedd yn ystod cyfnod cofrestru (unwaith yr wythnos), ble meant yn cael y cyfle i ymarfer eu sgiliau Rhifedd elfennol ar ffurf profion byr wythnosol. Mae'r profion yn rhoi sylw i'r sgiliau rhifedd elfennol yn y gobaith y bydd eu sgiliau yn gwella ac y bydd yn hyn yn eu cynorthwyo yn eu gwersi mathemateg yn ogystal ag ar draws y cwricwlwm. Mae'r profion hyn yn cael eu marcio a'u dychwelyd i'r disgyblion a byddant yn symud i'r prawf nesaf yn seiliedig ar eu perfformiad unigol.

*Every pupil in year 7 has been taking part in a Numeracy session during a form time (once a week), where they have had the opportunity to practice their basic Numeracy skills in the form of short weekly tests. The tests concentrate on the basic numeracy skills in the hope that it will improve their skills and as a result will help them in their maths lessons as well as across the curriculum. These tests are marked and they move to the next one based on their individual performance.*

## Menter Maths

Yn dilyn dadansoddiad o'r profion rhifedd cenedlaethol rydym yn targedu disgyblion o flwyddyn 7 ac 8 ac yn cynnig cefnogaeth ychwanegol iddynt o ran datblyfgu eu sgiliau rhifedd sylfaenol. Mae'r cynllun 'Menter Maths' yn gweithio trwy baru pob disgybl o flwyddyn 7 ac 8 gyda disgybl o'r chweched dosbarth. Byddant yn cwrdd am wers yn wythnosol ac yn canolbwyntio ar wahanol agweddau rhifedd sydd angen eu datblygu.

*Following the analysis of the national numeracy tests we target pupils from year 7 and 8 and offer extra support to develop their basic numeracy skills. The 'Menter Maths' scheme works by pairing each pupil from year 7 and 8 with a sixth form student. They meet for a weekly lesson and in these lessons they focus on various aspects of numeracy that need to be developed.*



## Wal Rhifedd *Numeracy Wall*















Mae gan bob ystafell ddosbarth yn yr ysgol bellach Wal Rhifedd. Mae nifer o bosteri fel y rhai uchod ar y wal er mwyn tynnu sylw at ddulliau a graffiau cyffredin sy'n codi yng ngwaith y disgyblion. Y gobaith yw i wella ansawdd y gwaith rhifedd ar draws holl bynciau'r cwricwlwm.

*Every classroom in the school has a Numeracy Wall by now. A number of posters like the ones above are on the wall in order to draw attention to common methods and graphs that appear in the pupils' work. The hope is to improve the quality of numeracy across all subjects of the curriculum.*

## Gwybodaeth i rieni *Information for parents*

Mae gwybodaeth ychwanegol (gyda dolenni) ar safwe'r ysgol e.e. **Llyfryn Rhifedd** sy'n esbonio rhai o'r dulliau gwahanol rydym yn ei ddefnyddio i ddatblygu sgiliau rhifedd mewn mathemateg ac ar draws y cwricwlwm. Cysylltwch a ni petai angen rhagor o gymorth neu arweiniad arnoch.
**Gwybodaeth gan Llywodraeth Cymru** ynglyn â sut i gefnogi eich plant gartref gyda'u mathemateg a rhifedd.




There is additional information (with links) on the school website e.g. **Numeracy Booklet** which explains some of the different methods used to develop numeracy skills in mathematics and across the curriculum.
**Information from the Welsh Government** regarding how you can support your child at home with their mathematics and numeracy.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government